

Kirsty Williams AC  
Y Gweinidog Addysg

25 Tachwedd 2019

Annwyl Kirsty,

### **Gwella ysgolion a chodi safonau**

Diolch am gytuno i ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 13 Chwefror 2020 i roi tystiolaeth lafar mewn perthynas â gwella ysgolion a chodi safonau.

I lywio ein gwaith craffu, byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu papur ysgrifenedig ar y pwyntiau a restrir yn yr atodiad i'r llythyr hwn. Byddem yn ddiolchgar pe gallech anfon y wybodaeth hon atom erbyn **dydd Iau 30 Ionawr 2020**.

Gofynnwyd am dystiolaeth hefyd gan y pedwar consortia rhanbarthol cyn y sesiynau a drefnwyd gyda nhw ar 16 Ionawr 2020. Caiff yr holl dystiolaeth ei chyhoeddi ar y [dudalen we berthnasol](#) cyn cynnal y sesiynau.

Yn gywir



**Lynne Neagle AC**  
**Cadeirydd**



## **ATODIAD - Cais am wybodaeth ysgrifenedig**

Mae rhagor o wybodaeth am ddarparu gwybodaeth i bwyllgorau, gan gynnwys sut y byddwn yn trin y wybodaeth honno, **ar gael ar ein gwefan.**

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe baech yn ymdrin â'r pwyntiau a ganlyn yn eich papur:

- Trosolwg byr o'r modd y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chonsortia rhanbarthol, awdurdodau lleol ac ysgolion i wella safonau a chodi safonau.
- Y wybodaeth ddiweddaraf am hynt y gwaith o gau'r bwlch cyrhaeddiad:
  - rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (cPYD) a disgyblion eraill;
  - rhwng grwpiau lleiafrifoedd ethnig sydd mewn perygl o dangyflawni a disgyblion eraill;
  - rhwng plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a disgyblion eraill;
  - rhwng Plant sy'n Derbyng Gofal a disgyblion eraill (gan gynnwys gwybodaeth am y gwaith sydd wedi'i wneud i nodi a gwella cyrhaeddiad plant wedi'u mabwysiadu o'u cymharu â disgyblion eraill).
- Rydym wedi gofyn am fanylion y cyllid sydd ar gael i wella ysgolion fel rhan o'r wybodaeth y gofynnwyd amdani i graffu ar y gyllideb ddrafft (adran 2.2 o'n llythyr dyddiedig 31 Gorffennaf 2019). Os oes unrhyw beth yr hoffech ei ychwanegu, byddai'r Pwyllgor yn falch o'i dderbyn.
- Eich sylwadau ar ganlyniadau PISA 2018 a'r hyn y maent yn ei amlygu o ran lle mae Cymru wedi cyrraedd yn ei hymdrechion i wella ysgolion.
- Eich sylwadau ar lefelau cyrhaeddiad Cyfnod Allweddol 4 ac arholiadau Safon Uwch/Safon UG yn 2019 a'r blynyddoedd blaenorol.
- Y wybodaeth ddiweddaraf am y modd y mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu argymhellion 26-29 yn adroddiad y Pwyllgor, **Cyrraedd y Nod? Cyllid wedi'i dargedu i wella canlyniadau addysgol**, y gwnaethoch naill ai eu derbyn neu eu derbyn mewn egwyddor (mewn perthynas â Her Ysgolion Cymru).
- Unrhyw wybodaeth neu sylwadau eraill y dymunwch eu cynnig.



